1. Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod gan bob Bwrdd Diogelu broses ar gyfer rheoli cwynion ynghylch Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant, er mwyn adlewyrchu natur amlasiantaethol yr Adolygiadau hynny.

Am beth all pobl gwyno?

Gall unrhyw un sy'n cyfranogi'n uniongyrchol o drefn yr Adolygiad, neu rywun y mae'r Adolygiad yn effeithio arnynt, wneud cwyn y bydd y Bwrdd yn ei hystyried. Ystyrir cwynion yng nghyd-destun un neu fwy o'r agweddau canlynol ar y broses:

a) Penderfyniad i gynnal Adolygiad Diogelu Unedig Sengl neu Adolygiad Ymarfer Oedolion/Plant neu beidio
b) Y drefn a ddilynwyd wrth gydymffurfio â'r canllawiau statudol

Sylwch, unwaith y caiff *Adolygiad Diogelu Unedig Sengl* ei gyhoeddi, na ellir defnyddio'r broses gwyno.

Cam 1 - Datrys gan y Rheolwr Busnes

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru'n ymrwymo i ddatrys cwynion cyn gynted â phosib ac i wneud hynny'n lleol os oes modd.

Gellir cwyno'n ysgrifenedig drwy lythyr neu e-bost, neu drwy ffonio'r Rheolwr Busnes Diogelu. Bydd y rheolwr busnes wedyn yn hysbysu Cadeirydd y Panel a fydd yn ei dro'n hysbysu'r adolygwyr o'r gŵyn.

Bydd y rheolwr busnes yn ymateb yn ysgrifenedig i'r achwynydd cyn pen deg o ddiwrnodau gwaith. Yn yr ymateb ysgrifenedig hwnnw, bydd yno wybodaeth i'r achwynydd ynglŷn â'r cam nesaf, pe byddent yn anfodlon â'r ymateb a gawsant.

Gellir gwneud cais i gofnodi y dylai unrhyw ohebiaeth ychwanegol ynglŷn â'r mater fod ar ffurf ysgrifenedig.

Ar sail manylion y gŵyn, bydd y Panel/Cadeirydd yn ystyried a ddylid atal/cynnull yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (sonnir am hyn eto yn nes ymlaen)

Cam 2 - Panel Cwynion Rhyngasiantaethol

Bydd y Rheolwr Busnes yn cynnull cyfarfod o Banel Cwynion Diogelu Rhyngasiantaethol Gogledd Cymru. Dylai'r panel gynnwys o leiaf tri o gynrychiolwyr o'r Bwrdd perthnasol, a bydd un ohonynt yn Gadeirydd. Ni chaniateir i'r Panel gynnwys neb a fu'n ymwneud â'r achos/adolygiad yn uniongyrchol er mwyn sicrhau ei fod mor annibynnol â phosib gydol y broses.

Bydd y Rheolwr Busnes yn dosbarthu'r holl ddogfennau perthnasol ymysg aelodau'r panel, gan gynnwys y gŵyn wreiddiol ac unrhyw adroddiadau perthnasol.

Caiff yr achwynydd wybod am y cyfarfod ac yn cael cyfle i fod yn bresennol. Bydd ganddynt hawl i ddod â rhywun addas gyda nhw i'w cefnogi, ond nid i'w cynrychioli.

Yng nghyfarfod y panel, bydd y cadeirydd yn gyfrifol am:

- Gyflwyno'r cyfarfod ac esbonio ei bwrpas
- Egluro'r hyn y bydd y panel yn ei ystyried a'r hyn na fydd yn ei ystyried
- Egluro unrhyw gamau a gymerwyd eisoes i geisio datrys y gŵyn ac unrhyw broblemau yn y cefndir
- Rhoi cyfle i'r achwynydd wneud datganiad i'r panel yn bersonol neu'n ysgrifenedig a galw tystiolaeth ynglŷn â'r gŵyn. (Os dymuna'r achwynydd gyflwyno gwybodaeth yn ysgrifenedig, rhaid i'r Panel dderbyn y wybodaeth honno o leiaf deg o ddiwrnodau gwaith cyn dyddiad gwrandawiad y Panel).

Gall y Panel a'r achwynydd alw tystion.

Mae gan y panel wyth o wythnosau wedi'r dyddiad y **derbyniwyd a llofnodwyd** y gŵyn i hysbysu'r achwynydd o'i ganfyddiadau.

Penderfyniad y Panel

Bydd y Panel Cwynion yn penderfynu:

- A oedd y broses a ddilynwyd yn gyson â'r canllawiau statudol ynghylch Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- yw'r penderfyniad sy'n destun y gŵyn yn rhesymol ar sail dilyn y canllawiau statudol yn iawn;
- A yw'r penderfyniad sy'n destun y gŵyn yn rhesymol ar sail yr wybodaeth oedd ar gael pan gynhaliwyd cyfarfod gwreiddiol yr Is-grŵp neu Banel yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.

Bydd Cadeirydd y Panel yn ysgrifennu at yr achwynydd i'w hysbysu o benderfyniad y panel cyn pen deg o ddiwrnodau gwaith ac yn egluro'r sail resymegol ar gyfer hynny. Anfonir copïau o'r llythyr hwnnw at:

- Y plentyn/oedolyn sy'n wynebu risg, os yw'n briodol
- Unrhyw un arall sy'n gyfrifol am ddarparu gofal, os yw'n briodol
- Cyd-gadeiryddion Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru
- Cadeirydd y Grŵp Adolygu Achosion Diogelu ar gyfer Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl
- Cadeirydd Panel yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, os yw'n briodol
- Unrhyw un arall a fu'n ymwneud â'r achos sy'n berthnasol ym marn y Panel.

Gall y Panel Cwynion argymell ailgynnull cyfarfod gwreiddiol y Grŵp Adolygu Achosion neu Banel yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl er mwyn ystyried canfyddiadau'r Panel Cwynion. Rhaid enwebu Cadeirydd annibynnol gwahanol ac ailgynnull y cyfarfod cyn pen pymtheg o ddiwrnodau gwaith ar ôl penderfyniad y Panel.

Os cadarnheir unrhyw ran o'r gŵyn, bydd y Panel Cwynion yn cyfeirio ei argymhellion i'r cyfarfod a ailgynullir. Bydd y penderfyniad gwreiddiol yn dal mewn grym nes cynhelir y cyfarfod a ailgynullir.